CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR
CYNHALIWYD AR 27 GORFFENNAF 2022 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Ddinesig San Pedr yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Maer, Cyng. Miriam Moules, oedd yn llywyddu dros y cyfarfod.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Dai Evans, Peter Hughes Griffiths, Marc Ingram, Gareth John (fideo) Andy King, Alun Lenny (fideo), Ioan Matthews, Miriam Moules, Emlyn Schiavone (fideo), Russell Sparks (fideo), Jeff Thomas a Wyn Thomas.

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Emma Smith – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr Cyllid
Mrs Catrin Llwyd – Cyfieithydd

125. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Tom Defis, Heledd ap Gwynfor, Angharad Jones Leefe, Arwel Lloyd a Barry Williams

126. Datgan Buddiannau

Y Cyng. Peter Hughes Griffiths ar gyfer eitem 133 fel Cadeirydd Cymdeithas Gefeillio Caerfyrddin.

127. Cwestiynau gan aelodau

Dim

128. Cwestiynau gan y cyhoedd

Dim

129. Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 fel rhai cywir.

130. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

131. Materion yn codi

DRAFT

(i) *Tud 32: Eitem 102 – Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Caerfyrddin*

(ii) *Tud 32: Eitem 104 – Trefniadau Sul y Cofio*

(iii) *Tud 32: Eitem 105 – Cynnau Goleuadau'r Nadolig a Pharêd y Ceirw*

(iv) *Tud 33: Eitem 108 – Gwybodaeth ar gyfer Bwrdd Clerod y Cyngor Tref*

(v) *Tud 33: Eitem 109 – Protocol Baneri Cyngor Tref Caerfyrddin*

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion mewn perthynas â'r pum eitem uchod.

132. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

133. Materion yn codi

Gadawodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths yr ystafell ar gyfer yr eitem hon.

(i) *Tud 35: Eitem 118 - Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu Lleol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref*

(ii) *Tud 36: Eitem 119 - Adolygiad o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd*

(iii) *Tud 36: Eitem 120 - Ymwelwyr o Lesneven, Cymdeithas Gefeillio Tref Caerfyrddin*

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r argymhellion mewn perthynas â'r tair eitem uchod.

Adroddiad Clerc y Dref

134. Cynllunio

(i) **PL/04291 -** Bwriad i drosi garej/ystafell amlbwrpas/ystafell haul yn ystafell amlbwrpas/'snyg' - ystafell eistedd - 2, Ystrad Close, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3PE. **DIM GWRTHWYNEBIAD.**

(ii) **PL/04404 –** Cyntedd cefn arfaethedig gyda storfa ardd. 5 Heol Long Acre, Caerfyrddin**. DIM GWRTHWYNEBIAD**

135. Priffyrdd

Dim

136. Trwyddedu

DRAFT

Dim

137. Adroddiad y Maer

Ers y cyfarfod diwethaf, adroddodd y Maer, y Cyng. Miriam Moules ei bod wedi bod yn bresennol yn yr ymrwymiadau canlynol:

Gorffennaf

1 Centre Stage Theatre – Cynhyrchiad o 'Matilda Jr'
2 Carmarthen Guide Dogs Fundraising Group – Agor Sioe Hwyl i Gŵn Tywys
3 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant – Derbyniad a Gwledd i'r Cymrodyr
4 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant - Seremonïau Graddio
5 Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant – Seremoniau Graddio
6 Crisp & Fry – Agoriad o'r siop newydd
7 Menter Gorllewin Sir Gâr - Beirniadu cystadleuaeth gelf ysgolion ar gyfer Gŵyl Canol Dre
9 Gŵyl Canol Dre – Agor 'Llwyfan Berfformio'
11 Cyngor Sir Gâr – Agoriad Swyddogol Archifdy Sir Gâr
12 Cyfarfod a Lesley Frances Evans
17 Cyngor Gwledig Llanelli - Gwasanaeth Dinesig
28 Just Good Friends Theatre Group – Cynhyrchiad o 'Agatha Crusty – Village Hall Murders'

NODWYD yr adroddiad.

138. Sedd Wag Cynghorydd – cyfethol aelod

Ystyriodd yr aelodau bedwar ymgeisydd a phleidleisio ar bob un. Gyda chyfanswm o 10 pleidlais, ynghyd â dau yn ymatal, **PENDERFYNWYD** y dylid cyfethol Mrs Luned Thomas i'r Cyngor.

139. Taliadau i Aelodau

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r manylion a gyflwynwyd i'r aelodau i'w cyhoeddi a'u cyflwyno i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

140. Adroddiadau gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

(i) Cyng. Mynegodd y Cyng. Gareth John ei ddiolch i staff y Cyngor Tref oedd yn gyfrifol am beintio'r rheiliau ym Mharc Caerfyrddin a chanmolodd ymddangosiad gwell y parc o ganlyniad i'w gwaith caled.
(ii) Nododd y Cyng Gareth John bresenoldeb yn Fforwm Tref Caerfyrddin a chefnogodd yr alwad am drefniant i adrodd yn ôl i'r Cyngor.
(iii) Cofnododd y Cyng. Emlyn Schiavone bresenoldeb mewn cyfarfod Cyfeillion Dementia, gan nodi bod dau berson sy'n byw gyda dementia bellach yn bresennol, a roddodd ffocws ychwanegol i'r grŵp. Gwahoddwyd yr aelodau i'r cyfarfod nesaf.

DRAFT

141. I apwyntio cynrychiolydd o'r Cyngor i Un Llais Cymru

PENDERFYNWYD gohirio'r mater tan gyfarfod nesaf y cyngor ac ystyried yr aelodau yn rhannu'r rôl, neu drefniadau eraill.

142. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2022

Cynigiodd y Cyng, Emlyn Schiavone fod y cofnodion yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2022, ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Thomas a P**HENDERFYNWYD** y mater.

143. Materion yn codi

(i) Recriwitio Clerc y Dref

Cafwyd trafodaeth am y broses recriwtio. Nodwyd y byddai'r cyfweliadau'n cael eu cynnal 3 diwrnod yn hwyrach na'r disgwyl, a nawr ar y 5ed o Fedi 2022. Gyda'r newid i ddyddiadau a nodwyd, dywedodd, cynigiodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths y dylid cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer recriwtio Clerc y Dref newydd. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Russell Sparks, a **PHENDERFYNWYD** y mater

Daeth y cyfarfod i ben am 8.08 y.h.

DRAFT